# Cyfarfod Blynyddol Cyngor Cymuned Ganllwyd.

## Ebrill 13eg 2017.

## Cofnodion.

**Presennol:**

Cyng. Chris Dixon, Dafydd Morris, Gruffydd Edwards, Carys Edwards, Sarah Roberts

**Ymddiheuriadau:**

Cyng P.Jenkins Cyng G.Hughes a Cyng G.Jones

**Cofnodion y cyfarfod blynyddol diwethaf.**

Cynigodd Cyng Dixon fod y cofnodion yn gywir, eilodd Cyng D.Morris.

**Dim mater yn codi.**

**Adroddiad y Cadeirydd:**

Yn ystod y flwyddyn fleanorol mae'r cyngor cymuned wedi gorfod addasu i doriadau ariannol eang a mabwysiadu gwasanaethau cyhoeddus gan Cyngor Gwynedd.
Mae gan Cyngor Ganllwyd gyfrifoldeb am wasanaethau megis toiledau cyhoeddus, biniau halen, llwybrau cyhoeddus a dodrefn gwledig.
Yn wyneb y toriadau ariannol a'r ffynhonnell ansicr o arian yn y dyfodol bydd rhaid i'r cyngor fod yn ofalus gyda'u cynlluniau cyllidebu.
Mae'r cyngor yn ehangu eu polisi o ffurfio partneriaethau lleol er budd y gymuned.
Cyng Dixon yn credu fydd rhaid defnyddio'r wasg leol i wneud y cyhoedd yn ymwybodol o faterion lleol a gwaith y cyngor cymuned.

**ADRODDIAD TRYSORYDD 2016-17.**

Balans arian: 01.04.2016 £4728.70

| | | |
|---|---|---|
| Derbyniadau: | | |
| Precept | £3100.00 | |
| Ad-daliad Mr Thompson | £ 20.00 | |
| Ad-daliad Cynnal&chadw | £ 780.00 | |
| Ad daliad TAW | £ 140.00 | |
| Rhoddion CNC | £ 650.00 | |
| Cyfanswm | | £ 4690.00 |

(£ 9418.70)

Taliadau

| | |
|---|---|
| Cyfrifydd | £ 180.00 |
| Llwybrau | £ 780.00 |
| Cyflog Clerc | £1200.00 |
| Rhodd neuadd Ganllwyd | £ 350.00 |
| Rhoddion eraill | £ 150.00 |
| Rent y neuadd | £ 165.00 |
| Zurich | £ 421.66 |
| Un Llais Cymru | £ 26.00 |
| Inc argraffydd | £ 42.23 |
| Glanhau safle bws | £ 20.00 |
| E.Thomas | £ 84.00 |

Cyfanswm Taliadau £ 3418.89

Balans arian 31.03.2017 £ 5999.81

Mae'n debyg fydd rhaid talu am waith archwilydd (tua £350),biniau halen (tua £800) fydd hyn yn torri'r balans arian yn sylweddol.

Derbyniodd bob cynghoryddd gopi o'r adroddiad ac ar ol trafodaeth cytynwyd fod yr adroddiad yn gywir.

**Cyllideb arfaethedig.**

Ar ol trafodaeth am gyllideb arfaethedig y Cyngor 2017-18 cytunodd y Cynghorwyr ar y cynllun cyllid isod;

Ar ol trafodaeth am gyllideb arfaethedig y Cyngor 2016-17 cytunodd y Cynghorwyr ar y cynllun cyllid isod;

Cyllideb arfaethedig 2017/2018.

Yn y banc 01/04/2017 £5999.81

Llai sieciau heb glirio £ 500

Incwm:

| | |
|---|---|
| Precept | £2700 |
| Rhoddion | £ 700 |
| Ad-daliad cynnal llwybrau | £ 577 |
| Ad daliad TAW | £ 50 |

Cyfanswm £ 9526.81

| | | |
|---|---|---|
| Taliadau | Cynnal Llwybrau Cyhoeddus | £ 750 |
| | Biniau Halen | £ 800 |
| | Llogi'r Neuadd | £ 175 |
| | Cyflog Clerc | £1200 |
| | Ysiwriant | £ 525 |
| | Rhoddion | £ 500 |
| | Toiled Ganllwyd | £ 250 |
| | Archwilydd | £ 525 |
| | (Eitemau amrywiol) | £ 700 |

Cyfanswm £4905

Gweddill £4621.81

**Ethol Pwyllgor**

| | |
|---|---|
| Cadeirydd | Cyng S.Roberts |
| Is Cadeirydd | Cyng G.Hughes |
| Swyddog Cyllid | Cyng D.Morris/G.Jones |

Mae'r cyngor yn diolch i Chris Dixon am ei wasanaeth fel cadeirydd.

**Rheolau Sefydlog 2017-18**

Ar ôl adolygu'r set bresennol o rheolau sefydlog ymwneud ā'r gorchmynion INLAC a rheolau mewnol Cyngor Ganllwyd pleidleisiodd y Cyngor i fabwysiadu set bresennol o reolau sefydlog ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod 2017-18.

**Asesiad Rig y Cyngor 2016-17.**

Pledleisiodd y cyngor i fabwysiadu (heb ddiwygiadau) asesiad risg presennol am y flwyddyn 2016-17.
Copi'r asesdiad isod:

CYNGOR CYMUNED Y GANLLWYD

**Asesiad Risg.**

**Mabwysiadwyd Ebrill 2017.**

**Pwrpas yr Asesiad Risg**

Cynhyrchwyd y ddogfen hon i alleuogi y Cyngor Cymuned i adolygu ac asesu y risgiau sydd yn eu wynebu a sicrhau eu bod yn cymeryd y camau priodol i nodi, lleihau a rheoli unrhyw risg.

Mae’r aelodau yn gyfrifol am yr asesiad risg ac felly dylid:

- Cymeryd camau i nodi y risgiau allweddol sy’n wynebu Y Cyngor
- Gwerthuso y canlyniadau posibl i’r Cyngor pe bai digwyddiad a nodwyd fel risg yn cymeryd lle.
- Penderfynu ar fesurau priodol i osgoi, lleihau neu reoli y risg neu ganlyniadau o’r risg

Mae y risgiau wedi eu nodi ac wedi eu categoreiddio isod. Hefyd mae y camau i rheoli y risgiau yn eu nodi.

**Rheolaeth Ariannol.**

Nid Rheolaeth Ariannol yn unig yw Rheolaeth Risg. Mae angen gosod amcanion a’u cyflawni er mwyn medru cyflwyno gwasanaeth cyhoeddus o safon uchel. Mae Cynghorau lleol yn gyfrifol am gryfhau eu trefniadau llywodraethu corfforaethol, gwella eu stiwardiaeth o arian cyhoeddus a rhoi sicrwydd i drethdalwyr.

Mae Cyngor Cymuned y Ganllwyd yn ceisio cynnal rheolaeth ariannol drwy nifer o ffyrdd:

**Cyfrifon Banc**

Un cyfrif Banc sydd gan y Cyngor, cyfrif cyfredol gyda banc yr HSBC.
Telir unrhyw arian a dderbyniwyd i mewn i’r cyfrif gan y Clerc.
Caiff pob taliad allan o’r cyfrif ei wneud yn defnyddio siec o’r cyfrif cyfredol.
Mae 2 Cynghorwr yn lofnodwyr awdurdodedig gyda pob siec yn cael eu harwyddo gan y rhai a nodwyd a’r bonion yn cael eu llofnodi.
Fydd y cyngor yn etho swyddog Cyllid pob blwyddyn yn y cyfarfod lblynyddol.

**Asedau a Benthyciadau.**

Ni does unrhyw fuddsoddiadau ariannol heblaw am y Cyfrif Cyfredol.  Fodd byddag bydd y Cyngor yn adolygu a chymeradwyo eu polisi buddsoddiadau yn flynyddol.  Cedwir rhestr o Asedau y Cyngor a gaiff ei adolygu fel bydd angen.

Nid oes unrhyw fenthyciadau.

**Cyllidebau Blynyddol.**

- Cyhoeddir Cyllideb gan y Cyngor ym mis Rhagfyr yn flynyddol sydd yn cydymffurfio a rheolau sefydlog a'r Rheoliadau Ariannol.
- Caiff y praesept ei osod ar sail y gyllideb.

**Adroddiadau Ariannol**

Bydd y clerc yn cyflwyno y cyfrifon banc ym mhob cyfarfod misol y Cyngor.
Bydd unrhyw gynllun arfaethedig heb ei gyllidebu ei nodi i sylw y Cynghorwyr
Caiff pob taliad ei gymeradwyo gan y Cyngor yn eu cyfarfod misol gyda sieciau ar gyfer eu llofnodi yn cael eu cyflwyno yn y cyfarfod.
Ni chedwir unrhyw arian parod gan y Cyngor.  Telir unrhyw fan dreuliau gan y Clerc fydd yn anfonebu y Cyngor am ad-daliad.

**Archwiliad o'r Cyfrifon**

Mae gan y Cyngor archwilydd mewnol i gynorthwyo a sicrhau fod y camau priodol mewn lle.
Bydd cyfrifon y Cyngor yn cael eu harchwililo yn flynyddol gan archwilwyr allano

**Gwerth Gorau**

Dylid gweithdrefnau ar gyfer archebu eu hadolygu fel bo angen.  Y drefn arferol yw ceisio y pris gorau er bydd adegau pan fydd y Cyngor eisiau defnyddio gwasanaeth elusennau lleol.  Ar gyfer gwasanaeth contractau mawr dylid trefnu i dderbyn tendrau cystadleuol.

**Rhoddion**

Dylai unrhyw rodd gan y Cyngor Cymuned gael ei wneud yn unol a chanllawiau a rheolau Adran 137 a 139 o Ddeddf Llywodraeth Lleol 1972.

**Adolygiad Rheoliadau Ariannol**

Mae Rheoliadau Ariannol y Cyngor yn cael eu cymeradwyo gan y Cyngor yn flynyddol.

**Warant "Fidelity"**

Mae gan y Cyngor yswiriant (i fyny at £10,000) mewn achos o golli arian drwy ladrad neu anonestrwydd.

**Cyfrifoldebau Cynghorwyr**

- Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu Cod Ymddygiad i'w aelodau fel a gyfarwyddir gan Cyngor Gwynedd. Mae Cyngorwyr wedi eu ymrwymo drwy hyn i ddatgan diddordeb mewn unrhyw fater fedr effeithio neu fod o elw iddynt a ni ddylen gymeryd rhan mewn unrhyw drafodaethau neu benderfyniadau ynglyn a'r mater o dan sylw.
- Mae Cynghorwyr yn ymrwymo i beidio a chynrychioli y Cyngor heb fod a chytundeb blaenorol y Cyngor cyfan, na hefyd i wneud neu ddweud unrhywbeth a all beri i'r Cyngor fod yn atebol am unrhyw wariant nac i ymrwymo y Cyngor i unrhyw benderfyniad neu weithred yn y dyfodol.

**Cyfrifoldebau y Clerc**

Cyfrifoldebau Cyffredinol – Mae'r Clerc yn ymrwymo i beidio a gweithredu ar ran y Cyngor heb gyfarwyddyd y Cyngor.

I baratoi munudau ac agenda ar gyfer cyfarfodydd y Cyngor.

Diogelwch Data Cyfrifadurol – dylai pob dogfen fod ar sustem gyfrifadurol y Clerc gan gael "back up" yn rheolaidd.

Y Clerc fel "RFO" sydd yn gyfrifol am sicrhau for yr holl ofynion yn cael eu cyrraedd o dan reolau Cyfraith Cyflogaeth a'r Swyddfa Dreth a fod TAW yn cael ei adenill.

**Diogelu Asedau**

Mae asedau y Cyngor wedi eu hyswirio gyda Zurich Municipal – Rhif Polisi YLL-122011-2833.

**Sicrwydd i Drethdalwyr**

Yn ychwanegol i'r camau a mesuriadau a gyfeirir atynt uchod, mae y Cyngor wedi cyhoeddi "Freedom of Information Scheme" sydd yn cael ei adolygu yn flynyddol. Gellir cael gwybodaeth am y cynllun ar yr hysbysfyrddau sydd wedi eu lleoli y tu allan i'r Neuadd Bentref ac ystad Derwen Deg.

Caiff ymholiadau y cyhoedd eu hymateb yn brydlon. Caiff llythyrau eu darllen yng nghyfarfodydd misol y Cyngor a'u hateb gan y Clerc fel y cyfarwyddir gan y Cynghorwyr.

**Niwed i Drydydd Berson**

Mae y cyngor yn ymgymeryd archwiliad gweledol o'i asedau yn rheolaidd i sicrhau fod eu hoblygiadau Iechyd a Diogelwch yn cael eu cyrraedd a chymeryd y camau priodol i leihau unrhyw niwed i drydydd person.

**Polisi Yswiriant**

Mae gan y Cyngor yswiriant atebolrwydd cyhoeddus (PL) gyda Zurich (Rhif polisi – YLL-122011-2833) o £10,000,000 i sicrhau y gall gwrdd unrhyw gost pe bai damwain i aelod o'r cyhoedd be bai y Cyngor yn atebol.  Mae lefel y polisi yn cael ei adolygu yn flynyddol

.

**Cyfarfod Blynyddol 2017.**
Fydd cyfarfod blynyddol 2017 yn cael ei gynnal yn Ebrill 2017.

**Unrhyw Fusnes arall.**

Dim.